**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 6ed Chwefror 2019 yn y Swyddfeydd Dinesig, Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, y Rhyl, yn dechrau am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd B. Mellor (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr Mrs E. M. Chard, A. R. James, A. S. Johnson, B. Jones, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. McAlpine, P. Prendergast, Miss S. L. Roberts, Ms V. Roberts, T. Thomas ac R. J. Turner.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 91. YMDDIHEURIADAU A CHYHOEDDIAD

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr J. Ball, B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Ms J. Hughes, Mrs W. M. Mullen-James, A. J. Rutherford a Miss C. L. Williams.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaeth drist gŵr y Cynghorydd Mrs J. Butterfield a'r cyn Gynghorydd Tref Mr Jack Butterfield.

Safodd y cyfarfod am funud o dawelwch i gofio Mr Butterfield.

## 92. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – IONAWR 2019

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu atodlen o daliadau a wnaed.

| Rhif TalebNo. | Enw'r cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 650 | BT | 384.43 | Rhentu llinell a Thaliadau am Alwadau |
| 659 | Shire Leasing | 337.33 | Tâl Prydles Chwarterol am System Ffôn Avaya |
| 651 | BT | 92.57 | Rhentu llinell |
| 654 | HSBC | 6.30 | Taliadau banc 17eg Tachwedd i 16eg Rhagfyr 2018 |
| 475 | Cyngor Sir Ddinbych | 707.00 | TANC ar gyfer Ffordd Wellington – Taliad 10 o 10 |
| 476 | Siop Cymorth ar Fudd-daliadau | 916.66 | Swyddog Apeliadau Rhan-amser – Taliad 10 o 12 |
| 649 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 6,885.53 | Cyflogau Staff Ionawr 2019 |
| 647 | Cyngor Sir y Fflint | 4,214.51 | Didyniadau Pensiwn ac Ariannu Diffyg Rhagfyr 2018 |
| 648 | CThEM | 2,649.55 | Didyniadau PAYE Rhagfyr 2018 |
| 652 | Gunsmoke Communications | 1,440.00 | Ffioedd Rheoli Digwyddiadau Rhagfyr 2018 |
| 663 | Sage & Co | 93.00 | Gwasanaethau Cyflogres Hydref i Ragfyr 2018 |
| 477 | Cyngor ar Bopeth | 2,000.00 | Swyddog Arbed Ynnu 17/18 taliad 4 o 4 |

| Rhif TalebNo. | Enw’r cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o’r Nwyddau a’r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| | **Cyfanswm taliadau** | **£19,726.88** | |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo’r adroddiad.*

## 93. AWURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I’R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â’r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau afreolaidd i’w rhyddhau dros y mis i ddod) (a ddosbarthwyd gyda’r rhaglen).

| Rhuf Taleb | Enw’r Cyflenwr | Disgrifiad o’r Gwasanaeth | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 660 | NWATC | Cinio i 2 gynrychiolydd | 32.00 |
| 661 | Proarb Limited | Coeden Nadolig 2018 | 1,290.00 |
| 662 | Cyngor Sir Ddinbych | Trwsio Goleuadau Nadolig Rhagfyr 2018 | 111.76 |
| 664 | Y Cyngh B Mellor | Costau Teithio | 31.50 |
| 665 | Cyngor Sir Ddinbych | Gosod y Goeden Nadolig | 316.80 |
| 666 | BJS Solutions | 4 cyfrifiadur newydd ar gyfer y swyddfa | 3,655.68 |
| 667 | Y Cyngh W Mullen-James | Tâl Lwfans Maer 3 o 3 ar gyfer 18/19 | 500.00 |
| 668 | Y Cyngh E Chard | Tâl Lwfans Dirprwy Faer 3 o 3 ar gyfer 18/19 | 166.66 |
| 669 | HSBC | Arian Mân | 200.00 |
| 670 | Cyngor Sir Ddinbych | Ad-daliad Benthyciad S2C 18/19 – Taliad 3 o 3 | 32,622.00 |
| 672 | TAPE | Ffilm Nadolig ar 8fed Rhagfyr 2018 | 2,400.00 |
| 673 | Cyngor Sir Ddinbych | 2 Docyn i Ginio Elusen y Maer San Ffolant | 60.00 |
| 674 | Cyngor Tref Treffynnon | 2 x Docyn Noson Casino Elusennol | 40.00 |
| 675 | Theatr Colwyn | 2 x Docyn i Noson Ffilm Elusen y Maer | 10.00 |
| 676 | Cyngor Tref Rhuddlan | 2 x Docyn i Gyngerdd Elusen y Maer | 16.00 |
| 677 | Sir Ddinbych - Homestart | Gwasanaeth a Gomisiynwyd – Prosiect Ymddygiad y Rhyl | 2,000.00 |
| 678 | Cyngor Tref Conwy | Cyfraniad i Ymgyrch Codi Arian y Maer | 15.00 |
| | | **Cyfanswm Atodlen B** | **£43,467.40** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo’r atodlen ar gyfer ei thalu a’i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *atal y Rheolau Sefydlog er mwyn i Glerc y Dref fedru ymateb fel mater o frys.*

## 94. ADRODDIAD PERFFORMIAD BUDDSODDIADAU

Cyflwynodd Clerc y Dref ei gyd-adroddiad ef a’r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda’r rhaglen) yn adrodd bod £463 mewn llogau wedi cronni yn y trydydd chwarter a £1,054 yn 2018/19 hyd yma.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**95. STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL 2019/20**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei gyd-adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid a'r stratgaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf (dosbarthwyd gyda'r rhaglen).

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r strategaeth.*

**96. ARCHWILIWR CYFFREDINOL CYMRU**

**(1) RHEOLAETH A LLYWODRAETHU ARIANNOL – CYNGHORAU TREF A CHYMUNED 2017-18**

**(2) TREFNIADAU ARCHWILIO MEWNOL MEWN CYNGHORAU TREF A CHYMUNED YNG NGHYMRU**

Cyfeiriodd y Clerc at y dogfennau uchod (darparwyd dolennau i'r fersiynau digidol gyda'r rhaglen oherwydd eu maint), ac anogodd yr aelodau i ddarllen y papurau pwysig hyn os nad oeddynt wedi gwneud hynny eisoes.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y dogfennau.*

**97. GWAHODDIAD I YMWELD Â'R TŶ CLWB NEWYDD A CHYFLEUSTERAU CYSYLLTIEDIG YNG NGHLWB RYGBI'R RHYL A CHYFARFOD SWYDDOGION Y CLWB**

Dywedodd Clerc y Dref bod Mr Richard Greenwood o'r clwb rygbi wedi gwahodd cynghorwyr tref i ymweld â'r tŷ clwb newydd a derbyn cyflwyniad ar y cynigion at y dyfodol, ar amser sy'n gyfleus i bawb.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y gwahoddiad a gofyn i Glerc y Dref gynnig naill ai dydd Mercher 13eg neu ddydd Mercher 27ain Chwefror am 6.00pm. Dywedodd deg o'r cynghorwyr a oedd yn bresennol y medrent fynd ar 13eg Chwefror.*

**[Datganodd y Cynghorydd K R Jones fuddiant rhagfarnus yn yr eitem uchod yn ei swydd fel aelod o'r clwb rygbi, ac ni chymerodd ran yn y trafodaethau ar y mater]**

**98. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR DDINBYCH 2018-2033**

Adroddodd Clerc y Dref am fanylion sesiynau galw heibio r gyfer Cynghorau Tref a Chymuned (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) mewn perthynas â dyraniad tir yn y sir o fewn y cynllun datblygu newydd arfaethedig.

Dywedodd Clerc y Dref y byddai'n mynd i'r sesiwn olaf yn Rhuddlan ar 7fed Chwefror.

***PENDERFYNWYF*** *derbyn yr wybodaeth.*

## 99. EITEMAU GWYBODAETH GAN YR AELODAU

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd materion brys i’w codi.

## 100. GWAHARDD Y WASG A’R CYHOEDD

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a’r Cyhoedd o’r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

## 101. COFNODION YR IS-BWYLLGOR ASESU RISG

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gofnodion cyfrinachol (a ddosbarthwyd gyda’r rhaglen) cyfarfod yr is-bwyllgor a gynhaliwyd ar 28ain Ionawr a’r argymhellion ynddynt.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo’r cofnodion.*

## 102. CYNLLUN GOLEUADAU’R NADOLIG 2018

Y Goeden Nadolig

Gofynnodd Clerc y Dref am arweiniad yr aelodau ar faint coeden eleni yn y stryd fawr.

Roedd y goeden y ddwy flynedd ddiwethaf yn 22 troedfedd ac roedd coeden y llynedd wedi costio £1,075.

Rhoddodd Clerc y Dref brisiau am goed mwy a dywedodd, pe prynid coeden fwy yna byddai angen i’r Cyngor Tref ddarparu mwy o oleuadau am gost ychwanegol.

Tafarn y Lorne

Soniodd Clerc y Dref am waith trwsio ar y gweill i dafarn y Lorne ar y stryd fawr, a achoswyd gan wyntoedd yn tynnu un o’r goleuadau a’i ffitiadau i ffwrdd o wal y dafarn, gan adael twll.

Gan mai golau’r Cyngor Tref ydyw, cyfrifoldeb y Cyngor Tref oedd trefnu’r gwaith trwsio a thalu amdano.

Ychwanegodd Clerc y Dref bod landlord y dafarn wedi bod yn amyneddgar iawn ac roedd yn hapus cael y golau ar y wal eleni.

***PENERFYNWYD****:*

*i) Bod Clerc y Dref yn cysylltu â grŵp BID y Rhyl i ofyn a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn gwneud cyfraniad tuag at goeden 22 troedfedd o ansawdd gwell eleni.*

*ii) Cymeradwywyd camau Clerc y Dref mewn perthynas â’r gwaith trwsio i dafarn y Lorne.*

**103. TERFYNU'R CYFARFOD**

Y Cadeirydd i ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd: ……………….……..

Dyddiad: ………………………